



Polisi (Adran Addysg Gwynedd)

Darparu ar gyfer Sipsiwn a Thrafeilwyr

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi yn cyferio at **Sipswn** fel term cyfansawdd sydd yn cwmpasu cymunedau megis: Sipswn, Gweithwyr Ffair, Gweithwyr Sycas, a Thrafeilwyr.

2. Cyd-destun

Mae dysgwyr o Sipswn yn tarddu o wahanol gefndiroedd, ond yn hanesyddol teuloeedd o Sipswn sef y Romany yw'r mwyafrif ohonynt. Maent yn aros am gyfnodau byr a hirach mewn safleoedd yn ardal Bangor yn bennaf, ond ar adegau ar draws rhanbarthau Gwynedd.

Anodd yw cyffredinoli ynglŷn ag anghenion rhieni a dysgwyr Sipswn ond dylid cadw'r pwyntiau isod yn y cof;

2.1 daw rhai i'r ardal a phrofi rhagfarn gan y gymuned leol sydd yn ei dro yn effeithio eu hagweddu tuag at addysg ac ysgol,

2.2 daw rhai o deuluoedd estynedig sy'n glaeaf ynglŷn â'r angen i ddatblygu sgiliau cymdeithasol,

2.3 daw rhai gyda chôd ymddygiad cymdeithasol gwahanol i weddill dysgwyr yn yr ysgol; er enghraifft mae gwisgo tlystlysau aur yn arwydd o darddiad ethnig, mae trafod rhyw yn fater sensitif iawn i rai teuluoedd.

2.4 daw rhai o gefndir lle nad yw prydlondeb a chysondeb presenoldeb yn flaenoriaeth,

a gall gwaith cartref fod yn broblem i ddysgwyr o gartrefi teithiol. Mewn rhai amgylchiadau ni fydd y dysgwr wedi bod yn bresennol am y gyfres o wersi, ni fydd sgiliau llythrenedd y rhieni yn gallu rhoi'r dysgwr ar ben ffordd, ac ni fydd y cymhelliant a'r pwys ar addysg yn y cartref yn ei gwneud hi'n hawdd i'r myfyriwr.

3. Datganiad o fwriad

3.1 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i weithredu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau tuag at Sipswn a Thrafeilwyr i sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac i gyrraedd eu potensial addysgol.

4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Addysg 1996

4.2 Deddf Hiliaeth (Amendment Act) 2000

4.3 Deddf Plant 2004

5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Mae gan pob dysgwr o Sipswn yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg

5.2 Mae gan bob dysgwr o Sipswn yr hawl i gyfleodd cyfartal ar gyfer cyrraedd llwyddiannau addysgol

5.3 Dengys ymchwil bod gwahaniaethau arwyddocaol yn bodoli rhwng dysgwyr o Sipswn ym maes addysg, rhaid ceisio sicrhau gwneud yn iawn am hyn drwy dargedu cymorth ychwanegol pan fo hynny'n briodol.

6. Amcanion Adran Addysg Gwynedd

6.1 Sicrhau fod pob dysgwr o Sipswn yn cael mynediad i'r addysg briodol ar gyfer ei oed a'i allu a'i anghenion.

6.2 Sicrhau hyfforddiant i athrawon yn y strategaethau fydd yn diwallu anghenion dysgwyr o Sipswn.

6.3 Cefnogi rhieni a dysgwyr Sipswn drwy gynnig gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Lles Addysg

6.4 Datbygu'r cyswllt cartref/ysgol (Gwasanaeth Lles Addysg)

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr ysgolion i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bersonau o darthiad ethnig (Deddf Hiliaeth 1976)

7.2 Mae gan lywodraethwyr ysgolion ddyletswydd i gyfarfod a gofynion Deddf Plant 1944, Deddfau Addysg 1981, 1988, 1996, a Deddf Plant 2004

8. Cyfrifoldebau a dyletswyddau Penaethiaid ysgolion

8.1 Dylai Pennaeth ysgol sicrhau fod anghenion dysgwyr o Sipswn yn cael eu hadnabod a'u diwallu

8.2 Dylai Pennaeth sicrhau bod asesiad prydlon o anghenion y dysgwr yn cael ei wneud

8.3 Dylai Pennaeth fod yn sensitif i wahaniaethau traddodiad a diwylliant (gweler y cyd-destun) wrth ddelio a materion lles.

8.4 Dylai Pennaeth anelu at sicrhau bod yr arferion da a nodir isod yn weithredol yn ei sefydliad ac yn cael eu gweithredu gan holl staff yr ysgol.

ARFERION DA

- Croeso i'r ysgol: cyfundrefn effeithiol o gofrestru'n yr ysgol yn bodoli, sensitifrwydd wrth esbonio'r categorïau ethnig
- Dynodi aelod o staff fel pwynt cyswllt i'r dysgwr
- Datblygu cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r cartref
- Trefn effeithiol o gaslu cofnodion blaenorol y dysgwr
- Trefn effeithiol o anwytho dysgwr (e.e. "buddy" neu mentor)
- Trefn effeithiol o asesu anghenion addysgol dysgwr, a defnyddio allbynnau unrhyw asesiad i ddarparu addysg briodol.
- Sicrhau asesiad cyn gynted â phosib i ddysgwr ag anghenion addysgol arbennig.
- Sicrhau cyfleoedd yn y cwricwlwm i gefnogi amrywiaethau tu fewn i gymdeithas
- Trefn effeithiol o sicrhau prydlondeb a phresenoldeb
- Ymwrthod â defnyddio gwaharddiad fel cosb tra'n ceiso sicrhau prydlondeb da.
- Sicrhau trefniadau sensitif mewn Addysg Gorfforol (mewn rhai cymunedau mae newid o flaen eraill yn annerbyniol)
- Darparu cymorth gyda gwaith gartref
- Cynnwys rhieni yng ngweithgareddau'r ysgol (dyddiau agored, nosweithiau rhieni a.y.y.b.)
- Cynllunio unrhyw gyfathrebu drwy bapur yn sensitif.
- Trefnu i hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg wybod am newydd ddyfodiaid a'r rhai sydd wedi gadael.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: